# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-06-08)

**SLC122**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.**

**Teitl: Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2008**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer talu grant ar sail prawf moddion i fyfyrwyr mewn addysg ôl-orfodol sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach dynodedig yn ystod y flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2008 i'w helpu i dalu costau astudio. **Gweithdrefn: Negyddol** Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 15.2. 1. Mae'r diffiniadau o "cyfnod o astudio llawn amser" a "cyfnod o astudio rhan amser" yn rheoliad 2 ill dau yn gorffen gyda'r ymadrodd "diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd y cwrs dan sylw. Mae'r hyn sy'n cyfateb yn Gymraeg i'r ail o'r rhain ("cyfnod o astudio rhan-amser") yn gywir yn defnyddio'r ymadrodd "ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd y cwrs o dan sylw", ond mae'r hyn sy'n cyfateb i'r cyntaf ("cyfnod o astudio llawn-amser") yn defnyddio "ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd o dan sylw" heb gyfeirio at y cwrs. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)] 2. Yn rheoliad 14(3) defnyddir yr ymadrodd "Yn y paragraff hwn" i gyflwyno termau sydd wedi'u diffinio. Fodd bynnag, maent wedi'u diffinio oherwydd y defnyddir hwy nid yn unig yn y paragraff hwnnw, ond yn y rheoliad cyfan. Dylai felly ddarllen "Yn y rheoliad hwn". [Rheol Sefydlog 15.2(vi)] **Cynghorwyr Cyfreithiol** Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth **Mawrth 2008**